Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# ITEC Training Solutions Ltd
# Tŷ ITEC
# Heol Penarth
# Caerdydd
# CF11 8TT

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Darparwr hyfforddiant sy'n cael ei berchnogi'n breifat yw ITEC Training Solutions Ltd, ac mae ei Brif Swyddfa wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Fe'i sefydlwyd yn gyntaf ym 1982 fel ITEC Caerdydd a dechreuodd gyflwyno hyfforddiant ym 1983 fel darparwr Hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n darparu cyfleoedd dysgu yn y gwaith ledled Cymru, gyda mwyafrif y dysgwyr yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru.

Mae gan y cwmni gontract gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno rhaglenni Dysgu yn y Gwaith ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Prentisiaethau, Adeiladu Sgiliau a Llwybrau i Waith (RIW). Mae Llwybrau yn cynnwys dysgu mewn Adeiladu, Peirianneg a Gweithgynhyrchu, Gweinyddu Busnes, Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid. Mae rhaglen Adeiladu Sgiliau hyblyg ar gyfer oedolion a phobl ifanc wedi'i hanelu'n bennaf at ddatblygu dysgwyr ar gyfer swydd neu gyfleoedd dysgu pellach. Adeg yr arolygiad, roedd 1534 o ddysgwyr mewn hyfforddiant. O'r rhain, roedd 73% yn dilyn rhaglenni Prentisiaeth Fodern Sylfaen (PFS) neu Brentisiaeth Fodern (PF), roedd 25% yn dilyn y rhaglen Adeiladu Sgiliau a'r gweddill yn dilyn rhaglenni eraill a ariennir, er enghraifft rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Ers yr arolygiad diwethaf gan Estyn yn Ionawr 2005, ailstrwythurwyd yr uwch dîm rheoli a rolau staff eraill. O ganlyniad, mae gan y cwmni gyfeiriad strategol cliriach, mae rheolwyr a staff yn gweithio'n well gyda'i gilydd fel tîm, mae morâl staff wedi gwella a pherfformiad dysgwyr wedi gwella'n gyson.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

## Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) a'u cynlluniau dysgu unigol (Adeiladu Sgiliau) yn dda. Mae tuedd barhaus ar i fyny wedi bod mewn perfformiad dros y tair blynedd diwethaf, gyda'r ffigurau diweddaraf gryn dipyn uwchlaw Cymaryddion Cenedlaethol. Mae dysgwyr yn perfformio'r un mor dda ar bob rhaglen hyfforddi.

Mae pob un o'r dysgwyr yn llawn cymhelliant, yn uchelgeisiol ac yn mwynhau eu hyfforddiant. Mae canlyniadau'r holiadur dysgwyr yn dangos cyfraddau boddhad uchel.

Mae cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr y cwmni yn darparu arweinyddiaeth dda ac yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth glir ar gyfer y cwmni. Maent wedi cynnal safonau uchel ac wedi gwella cyfraddau llwyddo dysgwyr flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn cyfnod o ehangu cyflym, newidiadau i gontractau a chymryd contractau drosodd oddi wrth ddarparwyr a fethodd.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod tuedd barhaus ar i fyny mewn perfformiad;
- y cyfeiriad strategol da a ddarperir gan y bwrdd;
- bod cyfathrebu effeithiol ar draws y darparwr;
- bod y darparwr wedi gwneud cynnydd da wrth roi'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf ar waith;
- bod ansawdd yr addysgu a'r asesu yn dda; a'r
- cydweithio ag ystod eang o bartneriaid i ymestyn ystod y cyfleoedd hyfforddi o ansawdd da ar gyfer dysgwyr.

## Argymhellion

A1 Datblygu strategaeth i hyrwyddo ac arfarnu effaith mentrau lles.

A2 Gwella’r cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion datblygu Saesneg.

A3 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dwyieithog dysgwyr a’u gwybodaeth am ddiwylliant Cymru.

A4 Cynnwys pob cyflogwr yn llawn yn adolygiadau cynnydd dysgwyr.

A5 Sicrhau bod staff yn cael eu hysbysu’n dda am gynnydd gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn gofyn bod cynllun gwella’r darparwr i APADGOS yn mynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad, fel rhan o’r cylch cynllunio gwelliant rheolaidd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arni yn dda. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r gyfradd cyrhaeddiad ar bob rhaglen wedi gwella'n sylweddol. Mae Adroddiad Deilliannau Dysgwyr (ADD) diweddaraf APADGOS yn dangos bod cyfraddau llwyddo a dilyniannau cadarnhaol gryn dipyn uwchlaw'r Cymaryddion Cenedlaethol ym mhob categori heblaw 'dilyniannau cadarnhaol' mewn Adeiladu Sgiliau Oedolion.

Mae data nas gwiriwyd y darparwr ar gyfer 2009-2010 yn dangos bod cyfraddau llwyddo dysgwyr wedi gwella ar draws pob rhaglen a maes dysgu. Mae dysgwyr yn perfformio'r un mor dda ar raglenni PFS a PF fel ei gilydd. O'r dysgwyr sy'n dilyn y rhaglen Adeiladu Sgiliau, mae'r cyfraddau llwyddo yn 82% o'u cymharu â'r Cymharydd Cenedlaethol, sef 72%. Mae deilliannau ar gyfer dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH) ar Raglen beilot Ymgysylltu Cymunedol yn arbennig o dda, gydag 14 o'r 15 dysgwr a ddechreuodd y rhaglen yn mynd i gael hyfforddiant pellach neu gyflogaeth. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau o fewn y graddfeydd amser sydd wedi'u hamodi yn eu Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU).

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu rhaglenni hyfforddi. Mewn ychydig iawn o achosion, mae cyflymder y cynnydd ar gyfer dysgwyr mwy abl yn rhy araf. Mae pob un o'r dysgwyr yn datblygu medrau dysgu ac ymarferol da a sylfaen wybodaeth eang i wella eu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth. Mae pob un o'r dysgwyr a gafodd eu cyfweld yn deall eu rhaglenni dysgu ac maent yn llawn cymhelliant, yn uchelgeisiol ac yn hyderus yn eu gwaith.

At ei gilydd, mae safon gwaith y dysgwyr mewn portffolios CGC yn dda. Mae portffolios y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos tystiolaeth o ymchwil annibynnol da. Mae gwaith ysgrifenedig ac ymarferol dysgwyr yn dda ar y cyfan.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau hanfodol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau eu medrau allweddol ar ddechrau eu hyfforddiant. Mae rhai dysgwyr yn cwblhau eu medrau allweddol ar lefel uwch na'r hyn sy'n ofynnol gan eu fframweithiau.

Caiff dysgwyr eu hamlygu i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant trwy ddefnyddio arddangosiadau a modelau ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn, Anthem Genedlaethol Cymru a phrosiect a gyflawnir gan ddysgwyr Adeiladu Sgiliau i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Mae nifer fach o ddysgwyr yn defnyddio Cymraeg achlysurol gyda phreswylwyr yn y cartrefi gofal y maent yn gweithio ynddynt.

Ym mhob adolygiad gyda dysgwyr, trafodir lefel eu defnydd o fedrau dwyieithog a'u gwybodaeth am ddiwylliant Cymru.

**Lles: Da**

Mae gan bron bob un o'r dysgwyr ddealltwriaeth dda o iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae ymatebion yn holiaduron y dysgwyr yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gweithle ac yng nghanolfannau'r darparwr. Mae bron pob un ohonynt yn gwybod sut i adnabod achosion o fwlio ac aflonyddu ac maent yn glir ynghylch beth y gallant ei wneud ynglŷn ag ef pe bai'n digwydd iddyn nhw. Yn ystod adolygiadau, mae llawer o ddysgwyr yn trafod cyfundrefnau ffitrwydd ac ymdrechion y maent yn eu gwneud i ddatblygu ffyrdd iach o fyw. Mae dysgwyr mewn cartrefi gofal a dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni gofal cartref yn paratoi prydau ar gyfer eu defnyddwyr gwasanaeth, lle maent yn dangos ymwybyddiaeth o ddewisiadau bwyta'n iach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn lleoliadau ysgol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau bwyta'n iach eu hysgolion. Mae bron pob un o'r dysgwyr Adeiladu Sgiliau yn cyflawni modiwl Ffyrdd Iach o Fyw.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac maent wedi'u cymell yn dda i lwyddo. Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn magu hyder yn eu gallu i ddysgu o ganlyniad i'r cymorth a gânt. Mae rhai dysgwyr yn datblygu eu hunan-barch a'u medrau dysgu sy'n helpu iddynt fynychu cyfweliadau am swyddi. Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da i lefelau uwch o gyfleoedd neu waith o ganlyniad i'w dysgu. Mae rhai ohonynt wedi ymgymryd â rolau mwy heriol yn eu gweithle ac mae un wedi defnyddio ei hyfforddiant i sicrhau swydd reoli. Maent yn dangos lefelau uchel o barch tuag at eu cydweithwyr ac yn rhoi cymorth da iddynt. Mae'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal yn dangos sensitifrwydd a pharch at gleientiaid. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio eu dysgu a'u hasesiadau. Mae bron pob un ohonynt yn gweithio'n dda tuag at amcanion cytûn. Mae cyfraddau presenoldeb yn dda.

Mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian at elusennau neu ddigwyddiadau cymunedol fel paentio man cymunedol mewn ysgol gynradd. Mae'r darparwr yn rhoi ystyriaeth dda i farn dysgwyr trwy ystod o ddulliau, gan gynnwys arolygon cynhwysfawr. Mae cynrychiolwyr dysgwyr yn mynychu fforymau bob wythnos a phob mis ac yn rhoi adborth i'r darparwr. Mae eu barn yn dylanwadu ar gynllunio gwelliant.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r darparwr yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda. Mae'n cynnig ystod eang o raglenni, ac fe gaiff dysgwyr gyfle i ddilyn cymwysterau ychwanegol i wella eu dysgu, er enghraifft hyfforddiant diogelu, trafod â llaw, cymorth cyntaf ac ymwybyddiaeth o dân.

Mae'r darparwr wedi datblygu perthynas weithio effeithiol gydag ystod eang o gyflogwyr i ddarparu cyfleoedd a medrau hyfforddi priodol ar gyfer dysgwyr. Rhoddir amrywiaeth o gyrsiau rhagflas gwaith buddiol i ddysgwyr Adeiladu Sgiliau. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn amgylcheddau gwaith realistig a sefydlwyd gan y darparwr, "Y Swyddfa" ("The Office") ar gyfer gweinyddu busnes a'r "Caffi Sgiliau"

("Skillz Café") ar gyfer manwerthu a lletygarwch. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn datblygu medrau cyflogaeth defnyddiol ar gyfer eu llwybr galwedigaethol dewisol.

Caiff pob un o'r dysgwyr asesiad cychwynnol fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu. Mae'r darparwr yn defnyddio'r wybodaeth o brofion diagnostig yn dda i bennu lefel medr y dysgwyr. Pan nodir bod gan ddysgwyr anghenion medrau sylfaenol, mae cymorth priodol ar gael. Dros y 12 mis diwethaf, fe wnaeth 76% o ddysgwyr ar y rhaglen Adeiladu Sgiliau y mae angen cymorth medrau sylfaenol arnynt fanteisio ar y cymorth hwnnw.

Mae safon medrau llythrennedd mewn ystod o bortffolios CGC yn dda. Mae aseswyr yn cywiro ac yn marcio gwaith dysgwyr gyda sylwadau ac adborth adeiladol.
Mae gan y darparwr strategaeth Iaith Gymraeg ac mae'n dechrau cynnig a datblygu dysgu cyfrwng Cymraeg trwy drefniadau partneriaeth a chydweithio. Mae rheolwyr a staff wedi ymrwymo i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Mae rhai aelodau o staff yn siarad Cymraeg. Mae aseswyr yn integreiddio agweddau ar ddiwylliant Cymru, fel barddoniaeth a cherrig milltir hanesyddol, mewn sesiynau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Ar hyn o bryd, nid oes gan y darparwr y cynhwysedd i roi cefnogaeth lawn i ddysgwyr sydd â rhywfaint o gymhwysedd dwyieithog. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r darparwr yn gwneud digon i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru.

Mae'r darparwr yn hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDFE) yn arbennig o dda ymhlith dysgwyr a staff. Mae gan y darparwr ymagwedd sefydliad cyfan at ADCDFE ac mae'n meithrin diwylliant o welliant amgylcheddol. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn nifer o fentrau defnyddiol ar draws y sefydliad fel ysgrifbin digidol sydd wedi lleihau defnydd o bapur gan 33%, ailgylchu, llai o yrru a phrosiectau eraill i arbed ynni. Trafodir mentrau ADCDFE gyda dysgwyr yn ystod adolygiadau. Mae gan y darparwr bolisi datblygiad cynaliadwy ac mae wedi ennill Gwobr y Ddraig Werdd.

Caiff dysgwyr eu hannog i gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau elusennol, fel apêl y bocs esgidiau, diwrnod Daear y Byd a Phlant mewn Angen. Mae dysgwyr Adeiladu Sgiliau wedi ymgymryd â nifer o brosiectau, fel Impact Drama (grŵp drama sy'n canolbwyntio ar fwlio), prosiect Inroads Drugs, Amnest Rhyngwladol, a char carnifal yng ngharnifal tref Bute.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r addysgu a'r asesu yn dda. Barnodd arolygwyr fod bron i dri chwarter o'r sesiynau a arsylwyd yn dda neu'n well.

Mae'r berthynas rhwng dysgwyr, aseswyr a chyflogwyr yn dda iawn ac maent yn datblygu lefelau uchel o barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr.

Mae staff hyfforddi yn cynllunio gweithgareddau hyfforddi ac asesu yn dda iawn. Er enghraifft, mae un asesydd yn defnyddio calendr cynllunio gweledol defnyddiol sy'n helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar gyflawniad ac amcanion ar gyfer y dyfodol. Mae gan staff hyfforddi wybodaeth bynciol dda iawn ac maent yn defnyddio ystod dda o arddulliau addysgu i ennyn diddordeb dysgwyr yn llawn mewn datblygu eu medrau galwedigaethol ac allweddol trwy brofiadau yn y gweithle. Fodd bynnag, ni

ddechreuodd rhai dysgwyr ar eu cymhwyster yn ddigon cynnar yn eu rhaglen hyfforddi.

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau sesiynau a gwersi yn fanwl a chynhwysfawr. Mae staff hyfforddi yn sensitif i anghenion dysgwyr sy'n ddihyder ar ddechrau eu hyfforddiant. Maent yn teilwra rhaglenni hyfforddi yn ofalus i fodloni anghenion unigol ac yn annog ac yn cefnogi dysgwyr yn gyson wrth iddynt fynd i'r afael â gweithgareddau mwy cymhleth. Mae'r rhan fwyaf o staff hyfforddi yn defnyddio cwestiynau yn effeithiol i wirio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr.

Mae'r asesu yn drylwyr ac wedi'i gynllunio'n dda. Mae dysgwyr yn glir ynglŷn â meini prawf asesu ac maent yn aml yn anfon eu gwaith ysgrifenedig dros yr e-bost at aseswyr i gael sylwadau cyn iddynt ymweld. Mae aseswyr yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr ar eu gwaith.

Mae staff hyfforddi yn ymweld â dysgwyr cyflogedig a'r rhai mewn lleoliadau gwaith o leiaf unwaith bob pedair wythnos i gynnal adolygiadau cynnydd. Maent yn trafod cyflawniadau dysgwyr, yn adolygu eu cynnydd cyffredinol ac yn gosod targedau clir ar gyfer y cyfnod nesaf. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw cyflogwyr yn cymryd digon o ran yn y broses hon.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio 'ysgrifbin' digidol sy'n cofnodi ac yn anfon gwybodaeth am waith papur a gwblhawyd i'r system ganolog i'w hadolygu a'i storio. Mae hyn nid yn unig yn lleihau'r defnydd o bapur yn sylweddol, ond mae'n galluogi dysgwyr i gael copi uniongyrchol o'u targedau nesaf er hwylustod. Mae'r data pwysig hwn hefyd ar gael un uniongyrchol i reolwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r darparwr yn hyrwyddo lles trwy ystod dda o ddulliau, gan gynnwys sesiynau gwybodaeth a thrafodaethau gyda dysgwyr. Mae dysgwyr mewn un cwmni mawr yn elwa ar ddarpariaeth ffrwythau am ddim a'r dewisiadau bwyta'n iach sydd ar gael yn y ffreutur. Mae aseswyr yn adolygu iechyd a lles unigolion yn rheolaidd yn ystod trafodaethau adolygu misol. Mae hyn yn helpu codi ymwybyddiaeth dysgwyr am iechyd a lles. Mae'r darparwr yn monitro iechyd a diogelwch lleoliadau gwaith yn systematig. Mae cronfa ddata iechyd a diogelwch ddefnyddiol i ddadansoddi achosion iechyd a diogelwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Adeiladu Sgiliau yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach a hylendid personol ac maent wedi datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd ar y rhaglen. Mae'r darparwr yn mesur datblygiad medrau meddal dysgwyr. Nid yw pob un o'r tiwtoriaid yn ymwybodol o ddeilliannau'r asesiad hwn ac nid ydynt ychwaith yn glir ynglŷn â sut i'w ddefnyddio wrth asesu cynllunio. Caiff dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gymorth da a phriodol sy'n helpu iddynt lwyddo. Mae ystod dda o weithgareddau cyfoethogi ar gael i ddysgwyr.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn glir ynglŷn â beth fydd eu rhaglen yn ei gynnwys. Mae aseswyr yn rhoi cyngor da i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau ar eu rhaglenni ac maent yn rhoi dogfennaeth glir iddynt. Mae aseswyr yn rhoi cyngor da i ddysgwyr am swyddi a datblygu gyrfa. Mae staff yn nodi anghenion dysgu ychwanegol

dysgwyr yn effeithiol yn ystod yr asesu cychwynnol. Caiff dysgwyr ag anghenion medrau sylfaenol gymorth da i wella'r medrau hyn. Mae staff yn cefnogi dysgwyr o grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau lleiafrifol yn dda. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth effeithiol i gefnogi'r nifer fach iawn o ddysgwyr ag anghenion datblygu Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Adeiladu Sgiliau yn ymwybodol o'r cymorth arbenigol a ddarperir gan swyddog bugeiliol y darparwr a'r asiantaethau arbenigol sydd ar gael. Mae gan y darparwr ystod eang o bartneriaethau ag asiantaethau cymorth hefyd, ac mae staff yn eu defnyddio'n dda i helpu dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu fel problemau emosiynol neu anawsterau gartref. Mae'r cymorth hwn yn helpu dysgwyr i aros ar y rhaglen. Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mae staff yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn pryderu am ddiogelwch dysgwr. Mae'r darparwr yn cofnodi cynnydd achosion diogelu yn glir.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae pob un o'r rheolwyr a'r staff wedi ymrwymo i ethos o gynhwysedd a pharch ac maent yn ei annog. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn dangos parch at ei gilydd mewn sesiynau hyfforddi ac yn y gwaith. Mae gan bron bob un o'r dysgwyr ddealltwriaeth dda o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac maent yn gwybod â phwy i gysylltu os oes ganddynt broblemau. Mae aseswyr yn atgyfnerthu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod ymweliadau adolygu.

Mae'r darparwr yn monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr bob amser yn hysbysu staff allweddol am lwyddiant polisïau perthnasol. Er enghraifft, nid oes unrhyw strategaethau clir ar waith i sicrhau bod pob un o'r staff yn gwybod pa mor dda y mae dysgwyr o gefndiroedd sy'n agored i niwed yn gwneud cynnydd o'i gymharu â'r norm, neu o'i gymharu â dysgwyr o ddarparwyr eraill.

At ei gilydd, mae gan y darparwr ddigon o adnoddau o ansawdd da i fodloni anghenion y dysgwyr. Mae safon yr adeiladau yng nghanolfannau hyfforddi'r darparwr yn dda, cânt eu cynnal yn dda ac maent yn addas at eu diben. Mae staff yn defnyddio'r mannau hyn yn effeithiol i arddangos a hyrwyddo gweithgareddau cyfoethogi, fel bwyta'n iach. Mae adeiladau lleoliadau gwaith yn amrywio o safon ddigonol i safon dda, ac maent yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ymarferol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan ITEC strwythur rheoli clir. Mae'r pedwar cyfarwyddwr yn darparu arweinyddiaeth dda ac yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth glir ar gyfer y cwmni. Maent wedi cynnal safonau uchel a chyfraddau llwyddiant dysgwyr gwell flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn cyfnod o ehangu cyflym, newidiadau i gontractau a chymryd contractau drosodd oddi wrth ddarparwyr a fethodd. Mae'r cyfarwyddwyr yn gosod blaenoriaethau clir ar gyfer y sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys lles a datblygiad

personol eu staff, gwelliant parhaus yr hyfforddiant a darparu data cywir ar berfformiad dysgwyr. Caiff blaenoriaethau a gwerthoedd craidd ITEC eu hadolygu a'u rhannu'n rheolaidd gyda phob un o'r staff a'r partneriaid trwy gynlluniau strategol a gweithredol clir. Mae cyfarwyddwyr yn datganoli cyllidebau adrannol yn briodol i uwch reolwyr sy'n cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am incwm a gwariant yn eu meysydd gwaith.

Mae'r darparwr wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at y partneriaethau 14-19 yng Nghaerdydd a Chasnewydd ac yn cyfrannu'n dda at wella'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, medrau hanfodol a lles.

Mae'r pedwar cyfarwyddwr yn gweithio'n dda gyda'u huwch reolwyr i osod a monitro targedau priodol a heriol ar gyfer deilliannau dysgwyr. Caiff y targedau hyn eu rhannu gyda phob un o'r staff ac fe gaiff cyfrifoldeb am fodloni, a rhagori ar y targedau hyn yn aml ei rannu gan bob un o'r staff a'r rheolwyr. Mae'r llinellau atebolrwydd yn glir ac mae pob un o'r staff a'r rheolwyr yn rhannu cyfrifoldeb cyffredin am berfformiad a lles dysgwyr. Mae cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o bwysigrwydd data cywir ac amserol ar berfformiad dysgwyr. Maent yn casglu ac yn dadansoddi data yn rheolaidd ac yn gwybod pa mor dda y maent yn perfformio o'i gymharu â darparwyr hyfforddiant eraill yng Nghymru. Mae morâl y staff yn uchel a'r cyfathrebu ar draws y sefydliad yn dda. Mae cyfarfodydd rheolaidd ar bob lefel. Mae briffiau a chylchlythyrau rheolwyr yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i staff a phartneriaid am ddatblygiadau'r cwmni ac maent yn ffordd effeithiol o rannu a dathlu llwyddiannau dysgwyr.

Mae gan ITEC system werthuso ddatblygedig i fonitro a gwella perfformiad staff a rheolwyr. Mae'r gwerthusiadau perfformiad blynyddol yn asesu perfformiad unigolion yn gywir, yn gosod amcanion clir ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r prosesau ar gyfer hunanasesu yn dda. Caiff staff ar bob lefel eu cynnwys yn llawn yn y broses ac mewn cwblhau'r adroddiad hunanasesu (AHA). Gallant adolygu cynnydd datblygu'r AHA a gwybodaeth ategol trwy'r cyfleusterau mewnrwyd ar draws y cwmni. Mae gan y darparwr brosesau aeddfed ar waith i wrando ar ddysgwyr trwy grwpiau ffocws a holiaduron ac yn llai ffurfiol trwy'r berthynas dda sy'n bodoli rhwng dysgwyr, aseswyr a thiwtoriaid. Mae'r darparwr yn defnyddio ystod dda a hyblyg o strategaethau i drafod barn y cyflogwyr y maent yn gweithio gyda nhw, a rhanddeiliaid eraill. Caiff y gweithgareddau hyn eu cefnogi'n dda ac mae'r darparwr yn darparu adnoddau ar eu cyfer.

Mae'r cynllun datblygu ansawdd (CDA) yn gyfrwng effeithiol iawn ar gyfer gwelliant parhaus. Caiff y cynnydd mewn gwelliant a dargedir yn y CDA ei drafod a'i fonitro mewn cyfarfod rheoli gweithredol bob mis. Caiff gwybodaeth ystadegol yn ymwneud â dangosyddion perfformiad y darparwr ei monitro'n rheolaidd ar bob lefel o weithrediadau'r darparwr. Mae cynllunio gweithredu yn nodwedd allweddol o ddiwylliant y darparwr ar gyfer gwelliant parhaus ac mae'n canolbwyntio'n dda ar safonau a pherfformiad dysgwyr.

Mae system sefydledig ac effeithiol ar gyfer arsylwi addysgu a hyfforddi. Darperir cymorth unigol da ar gyfer staff y gallai fod angen iddynt ddatblygu eu sesiynau addysgu a dysgu ymhellach.

Mae’r darparwr wedi gallu cynnal gwelliant sylweddol yn safonau dysgwyr a gweithrediadau’r cwmni yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi cyd-fynd â thwf cyflym y busnes.

Mae’r darparwr yn defnyddio data a gwybodaeth a luniwyd ac a gytunwyd arnynt yn genedlaethol i nodi darparwyr tebyg. Maent yn defnyddio hyn yn dda i ymgymryd â gweithgareddau meincnodi sy’n ymwneud yn benodol â’r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.

Mae’r darparwr yn manteisio’n llawn ar fod yn aelod o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC) i rannu arfer dda. Mae hefyd yn defnyddio ymgynghorwyr diduedd ac arbenigwyr eraill i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwella ymhellach ar draws gweithrediad y darparwr.

Mae’r darparwr wedi gwneud cynnydd da yn rhoi’r argymhellion o adroddiad arolygu blaenorol Estyn ar waith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ITEC wedi datblygu ystod o bartneriaethau effeithiol yng Nghaerdydd a’r cyffiniau. Mae’r rhain yn cynnwys partneriaethau gyda darparwyr hyfforddiant eraill, partneriaethau 14 i 19 yng Nghaerdydd a Chasnewydd, grwpiau cymunedol, cyflogwyr a phartneriaethau pobl ifanc. Mae’r partneriaethau hyn wedi llwyddo oherwydd yr ymddiriedaeth a ddatblygwyd rhwng staff ITEC a’r partneriaid. Mae staff a rheolwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd dibynadwyedd yn y bartneriaeth a’r ffaith fod angen i ITEC gyflawni’r addewidion a wnaed i’w partneriaid.

Mae ITEC wedi datblygu Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr sy’n amlinellu’n glir y modd y mae’n gweld gweithio mewn partneriaeth fel y ffordd orau o fodloni anghenion newidiol cyflogwyr a dysgwyr. Mae’r strategaeth yn cyfleu diben ac egwyddorion ymgysylltu â phartneriaid a phwysigrwydd ‘addewid ITEC’ i’w partneriaid.

Mae gan ITEC drefniadau is-gontractio gyda phum darparwr hyfforddiant ac mae ganddo’r un disgwyliadau o ran ansawdd a safonau ar gyfer yr isgontractwyr hyn. Mae’r isgontractwyr hyn yn darparu hyfforddiant i ryw 6% o ddysgwyr ITEC, ond mae cynlluniau i gynyddu hyn yn sylweddol.

Mae cyfarwyddwyr a rheolwyr wedi datblygu perthynas effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid i helpu a chefnogi eu dysgwyr. Mae’r rhain yn cynnwys Gyrfa Cymru a’r Adran Gwaith a Phensiynau. Derbyniodd ITEC ‘wobr y partner mwyaf gwerthfawr’ gan Gyrfa Cymru yn 2007-2008 ac yn 2009-2010.

Mae’r gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn datblygu’n dda. Mae’r bartneriaeth â’u tîm datblygu cymunedol yn darparu rhaglen hyfforddi

arloesol ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi llwyddo yn yr ysgol ac nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant (NACH).

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn monitro data deilliannau dysgwyr yn dda ac maent yn defnyddio cymaryddion a data meincnodi cenedlaethol yn effeithiol i wella ansawdd y dysgu yn barhaus.

Mae gan y darparwr strategaeth Hyfforddi a Datblygu wedi'i chofnodi'n dda.  Mae gan bob un o'r staff Gynllun Hyfforddi a Datblygu a cheir cyfleoedd da i gael hyfforddiant a chymwysterau priodol i helpu gwella eu perfformiad a'u rhagolygon gyrfa.

Mae gan y staff gymwysterau priodol ac mae ganddynt wybodaeth dda am eu sector diwydiant a'r gofynion o ran cymwysterau.

Mae'r darparwr yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu ei adnoddau ar gyfer dysgwyr yn dda ac mae'n darparu adnoddau da ar gyfer ei staff.  Yn benodol, defnyddir ysgrifbin digidol i leihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar weinyddu gwaith papur a chanolbwyntio adnoddau ac amser staff ar ddysgwyr.

Mae'r cynlluniau strategol a gweithredol yn gynhwysfawr.  Mae'r sefydliad wedi rheoli twf yn dda tra'n gwella ansawdd deilliannau dysgu a dysgwyr yn barhaus.

Caiff cyllidebau ariannol eu trosglwyddo i uwch reolwyr a'u monitro'n rheolaidd fel eu bod yn addas ar gyfer cynnydd mewn gweithgarwch, fel anghenion yn ymwneud â rhoi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Cymwysterau ar waith.

Mae'r darparwr yn rheoli ei gyllid yn dda ac mae wedi llwyddo i ddychwelyd cryn dipyn o arian dros ben bob blwyddyn mewn amgylchedd o ehangu a gynlluniwyd yn ofalus.  Mae ITEC wedi buddsoddi'n dda mewn staff, adeiladau ac adnoddau hyfforddi.

Mae ITEC Training Solutions yn cyflawni safonau da ar gyfer ei ddysgwyr ac yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad Dysgwyr**

Mae’r ymatebion i’r holiaduron dysgwyr a lenwyd cyn yr arolygiad yn dangos y byddai bron pob un o’r dysgwyr yn argymell y darparwr hyfforddiant hwn i bobl eraill.  Mae staff hyfforddi yn helpu dysgwyr yn dda i ymgynefino yn ystod wythnosau cyntaf eu rhaglen hyfforddi ac fe gaiff bron pob un o’r dysgwyr gymorth da gan staff.  Nododd llawer o ddysgwyr a ymatebodd eu bod yn mwynhau eu hyfforddiant.

# Atodiad 2

## T0000025: ITEC Training Solutions Ltd (ITEC Caerdydd gynt)

### Darpariaeth DYYG – Cyfraddau Llwyddo yn ôl Sector/Maes Pwnc a'r Math o Raglen

| | 2007/08 | | | | | | 2008/09 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ITEC Training Solutions Ltd (ITEC Caerdydd gynt) | | | Cymaryddion Cenedlaethol | | | ITEC Training Solutions Ltd (ITEC Caerdydd gynt) | | | Cymaryddion Cenedlaethol | | |
| | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo |
| **Yn ôl Sector / Maes Pwnc** | | | | | | | | | | | | |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 665 | 865 | 77% | 12,145 | 17,650 | **69%** | 1,120 | 1,335 | 84% | 14,080 | 17,900 | **79%** |
| Addysg a Hyfforddiant | . | . | . | 2,125 | 2,530 | **84%** | 20 | 20 | 95% | 1,930 | 2,190 | **88%** |
| Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith | 200 | 270 | 75% | 10,070 | 13,680 | **74%** | 210 | 225 | 94% | 9,770 | 12,120 | **81%** |
| Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid | . | . | . | 1,140 | 1,545 | **74%** | . | . | . | 360 | 505 | **71%** |
| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | 25 | 55 | 44% | 9,575 | 12,715 | **75%** | 105 | 120 | 91% | 9,690 | 12,105 | **80%** |
| Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | 110 | 180 | 60% | 5,675 | 8,050 | **70%** | 135 | 155 | 87% | 6,785 | 8,750 | **78%** |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 40 | 50 | 78% | 4,080 | 5,790 | **70%** | 30 | 35 | 91% | 4,620 | 6,070 | **76%** |
| Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 170 | 205 | 82% | 10,100 | 13,690 | **74%** | 205 | 265 | 79% | 9,440 | 11,775 | **80%** |
| Gwallt a Harddwch | . | . | . | 2,060 | 2,910 | **71%** | . | . | . | 2,140 | 2,690 | **80%** |
| Lletygarwch ac Arlwyo | . | . | . | 3,425 | 5,060 | **68%** | . | . | . | 2,485 | 3,420 | **73%** |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | . | . | . | 2,175 | 2,725 | **80%** | . | . | . | 1,910 | 2,285 | **84%** |
| Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | . | . | . | 55 | 90 | **64%** | . | . | . | 10 | 10 | **100%** |
| Sector/Maes Pwnc heb ei nodi | 540 | 790 | 68% | 15,495 | 25,890 | **60%** | 565 | 655 | 86% | 20,325 | 28,125 | **72%** |
| **Cyfanswm** | 1,745 | 2,415 | 72% | 78,115 | 112,325 | **70%** | 2,400 | 2,810 | 85% | 83,540 | 107,940 | **77%** |
| **Yn ôl Rhaglen** | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | 5 | 10 | 88% | 5 | 5 | **80%** |
| Prentisiaethau Modern Sylfaen | 610 | 740 | 82% | 34,830 | 47,215 | **74%** | 950 | 1,110 | 85% | 33,200 | 41,755 | **80%** |
| Prentisiaethau Modern | 315 | 450 | 70% | 20,130 | 27,750 | **73%** | 635 | 740 | 86% | 21,110 | 26,460 | **80%** |
| Diploma Medrau Modern | 25 | 40 | 62% | 1,525 | 2,655 | **57%** | 5 | 5 | 100% | 1,235 | 1,675 | **74%** |
| Adeiladu Sgiliau | 800 | 1185 | 67% | 21,480 | 34,160 | **63%** | 805 | 940 | 86% | 27,230 | 36,780 | **74%** |
| Rhaglen DYYG Arall | . | . | . | 155 | 545 | **28%** | 5 | 15 | 35% | 770 | 1,270 | **61%** |
| **Cyfanswm** | 1,745 | 2415 | 72% | 78,115 | 112,325 | **70%** | 2,400 | 2,810 | 85% | 83,540 | 107,940 | **77%** |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)

. dynodi nad yw'n berthnasol.

Mae'r rhifau wedi cael eu talgrynnu i'r lluosrif agosaf o 5.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Stephen Davies AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins AEM | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Una Connolly AEM | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward AEM | Arolygydd Tîm |
| Grant Santos | Arolygydd Cymheiriaid |
| Neil Harris | Enwebai’r Darparwr |